



department for
culture, media
and sport



United Nations
Educational, Scientific and
Cultural Organization



World Heritage
in the United Kingdom

Canllaw ar Lenwi'r Ffurflen Gais ar gyfer Rhestr Betrus y DU o Ddarpar Safleoedd i'w henwebu'n Safleoedd Treftadaeth y Byd

Mawrth 2010

improving
the quality
of life for all

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb drwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi ymgyrraedd am ragoriaeth, ac eiriol dros y diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

Cyflwyniad

Y ffurflen gais yw cam cyntaf proses a ddyluniwyd i gynhyrchu rhestr o safleoedd yn y Deyrnas Unedig a thiriogaethau tramor, a allai fynd ymlaen i enwebiadau a lwyddai i gael eu cofnodi ar Restr Treftadaeth y Byd gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO.

Mae'r ffurflen yn fwriadol gwyno er mwyn peidio â gosod costau diangen ar geiswyr. Dylai datganiadau byr gael eu darparu mewn ymateb i bob un o'r cwestiynau. Bwriedir i'r ffurflen gynhyrchu gwybodaeth gwyno er mwyn nodi'r safleoedd hynny sy'n haeddu ystyriaeth fanylach, am fod ganddynt, ar yr olwg gyntaf, y potensial i fodloni profion llym UNESCO. Caiff pob cais ei ystyried gan banel arbenigwyr annibynnol ac, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y gofynnir am wybodaeth bellach.

Yn ogystal â'r wybodaeth ar y ffurflen, bydd gwerthuso ceisiadau yn cymryd i ystyriaeth a yw safle arfaethedig yn adlewyrchu blaenoriaethau UNESCO ar gyfer llenwi bylchau ar Restr Treftadaeth y Byd, yn unol â Strategaeth Fydol UNESCO. Yn dilyn ymchwil gan gynghorwyr swyddogol Pwyllgor Treftadaeth y Byd, y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (ICOMOS) a'r Undeb Rhyngwladol er Cadwraeth Natur (IUCN), mae'r Pwyllgor yn dymuno ymdrin â'r anghydbwysedd rhwng rhanbarthau'r byd a chategoriâu safleoedd. Hoffai weld enwebu mwy o safleoedd naturiol a safleoedd sy'n adlewyrchu safbwyntiau newidiol am y dreftadaeth, fel y byddai llai o safleoedd pensaernïol a mwy o safleoedd newydd sy'n adlewyrchu datblygiad dynol drwy ddulliau eraill. Ceir arweiniad pellach ar y mater hwn yn y papur ymgynghori ***World Heritage and the Nation: Identifying, Protecting and Promoting our World Heritage***, sydd ar gael o borth Treftadaeth y Byd DCMS: <http://www.culture.gov.uk/ukwhportal/> ac oddi wrth UNESCO: <http://whc.unesco.org/en/globalstrategy/>.

Mae canllawiau manwl am reolau a gofynion UNESCO ar gael yn yr ***Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention, (OG)***. Rhoddir cyfeiriadau at baragraffau perthnasol y ddogfen hon ac mae'r testun llawn ar gael ar wefan UNESCO: <http://whc.unesco.org/en/guidelines>.

Dylai'r nodiadau sy'n dilyn gynorthwyo ceiswyr wrth lenwi'r ffurflen. Yn ogystal, mae'r **Dalenni Gwybodaeth** yn y pecyn ymgeisio yn cynnig cefndir defnyddiol ynghylch materion Treftadaeth y Byd.

Mae **cyngor cyffredinol** am y broses ymgeisio ar gael, a dylai ymholiadau gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Gomisiwn Cenedlaethol y DU (UKNC).

Cyswllt: Harry Reeves, Secretary General, UKNC, Suite 98, 3 Whitehall Court, London SW1A 2EL
Ffôn: 0207 766 3490

E-bost: hreeves@unesco.org.uk

Canllaw fesul cwestiwn

- (1) **Enw Safle arfaethedig Treftadaeth y Byd.** Dwedwch wrthym beth yw enw'r safle.
- (2) **Lleoliad Daearyddol.** Dylai ymgeiswyr ddatgan y wlad neu'r rhanbarth, a darparu map A4 o leoliad y safle, gyda chyfeiriadau grid at ei bwynt canol, a chynllun sy'n dangos prif elfennau'r safle. Gall uchafswm o 6 ffotograff gael eu cyflwyno hefyd. Yn achos enwebiadau cyfresol arfaethedig, neu safleoedd gwasgaredig, cyflenwch yr wybodaeth hon ar gyfer pob rhan o'r safle.
- (3) **Math o Safle.** Dylech ddatgan ai safle diwylliannol, naturiol neu gymysg yw'r safle, neu dirlun diwylliannol. (OG 45-47)
- (4) **Disgrifiad.** Yn eich disgrifiad byr o'r safle dylech roi sylw arbennig i'w nodweddion ffisegol.
- (5) **Hanes.** Dylech ddarparu nodyn byr o'r digwyddiadau pwysig yn esblygiad y safle ers ei ddechreuadau.
- (6) **Pam ydych yn credu y dylai'r safle gael ei gofnodi fel Safle Treftadaeth y Byd?** Mae enwebu a rheoli'r safleoedd hyn ym ymgymeriad mawr a gall fod yn gostus. Er y gall safle fod yn bwysig yn ein cyd-destun cenedlaethol, cofiwch nad yw'n dilyn o reidrwydd y gall fod yn Safle Treftadaeth y Byd ac efallai nad dyma'r ffordd orau o reoli safle penodol. Gan hynny, nodwch y prif resymau pam rydych yn credu y dylai'r safle fod yn Safle Treftadaeth y Byd.
- (7) **Dwedwch pam rydych yn credu bod gan y safle Werth Cyffredinol Eithriadol (GCE).** Mae pwysigrwydd Safleoedd Treftadaeth y Byd yn mynd y tu hwnt i arwyddocad cenedlaethol. Mae hyn yn golygu eu bod yn bwysig am resymau treftadaeth ddiwylliannol neu naturiol sydd mor eithriadol eu bod yn goresgyn ffiniau cenedlaethol a bod ganddynt arwyddocad rhyngwladol gwirioneddol i ddynolryw cyfan. Dywedir bod ganddynt Werth Cyffredinol Eithriadol, o edrych arnynt o safbwynt rhyngwladol. Dylech ddarparu datganiad byr i esbonio sut mae hyn yn wir am y safle hwn, gan gynnwys y nodweddion pennaf sy'n dangos ei bwysigrwydd. (Esbonnir GCE yn OG 49-51 a 77-78)
- (8) **Gwerth Cyffredinol Eithriadol (GCE): meini prawf UNESCO.**

I gynorthwyo'r broses o benderfynu a oes gan safle GCE, mae UNESCO yn ystyried enwebiadau o dan 10 maen prawf penodol. Rhaid i safle fodloni un neu ragor o'r meini prawf hyn, a nodir ar ddiwedd y Canllaw hwn. Dylai ceiswyr ddewis meini prawf sy'n briodol i'w safle, a rhoi esboniad byr ar gyfer pob maen prawf a ddewisir. (OG 77)
- (9) **Dilysrwydd.** Mae hyn yn gymwys i safleoedd diwylliannol a chymysg yn unig ac yn golygu asesu i ba raddau y caiff Gwerth Cyffredinol Eithriadol safle ei fynegi drwy amrywiaeth o'i rinweddau, (a elwir yn briodweddau yn y cyd-destun hwn), fel ffurf a dyluniad, neu ddefnydd a swyddogaeth. Mae'n mesur hefyd i ba raddau y mae rhinweddau safle yn aros heb eu difrodi neu eu newid dros amser. Rhaid i'r ffynonellau gwybodaeth sy'n cyfeirio at y safle fod yn gredadwy ac yn wir. Mewn rhai achosion gallai dirywiad ffabrig y safle ei hun, neu ddatblygiad, fod wedi effeithio ar safle fel nad oes ganddo bellach ei rinweddau pwysig gwreiddiol. Ar gyfer safleoedd diwylliannol a chymysg, rhowch datganiad byr i esbonio i ba raddau y mae nodweddion gwreiddiol y safle ar ôl, gan y dengys hyn a all ddangos fod ganddo ddilysrwydd o hyd. (OG 79-86)

(10) Cyflawnrwydd. Ar gyfer safleoedd diwylliannol a chymysg a gynigir o dan feini prawf (i) – (vi) asesir cyflawnrwydd yn ôl i ba raddau y mae ffabrig gwreiddiol y safle yn aros fel mesur o gyflawnrwydd eiddo. A yw'r safle arfaethedig yn cynnwys yr holl elfennau allweddol sy'n cyfrannu at ei Werth Cyffredinol Eithriadol? Mae cyflawnrwydd yn cymryd i ystyriaeth faint mae'r safle yn arddangos yr holl arwyddocad y bernir fod ganddo GCE ar eu cyfer, a chaiff ei ystyried mewn perthynas â phwysigrwydd arbennig, neu GCE y safle. Mae dirywiad neu ddifrod i'r eiddo yn ystyriaeth berthnasol. Nid yw atgyweirio neu adfer ffabrig gwreiddiol bob amser yn rhwstr ond mae angen eu cymryd i ystyriaeth. Nodwch faint o'r ffabrig gwreiddiol sydd, a'i gyflwr. Nodwch unrhyw waith sylweddol sydd wedi ei gyflawni ar safle. (OG 87-89)

Ar gyfer safleoedd naturiol, mae'r prawf cyflawnrwydd yn benodol yn ôl y maen prawf a ddewisir. I gael arweiniad manwl ar gyflawnrwydd mewn perthynas â safleoedd a gynigir o dan feini prawf (vii) – (x) cyfeiriwch at yr OG 90-94. Mae Dalen Wybodaeth 6 hefyd yn rhoi cymorth am gyflawnrwydd.

(11) A oes safleoedd tebyg eraill sydd eisoes ar Restr Treftadaeth y Byd? Os ydych yn ymwybodol o unrhyw safleoedd tebyg, rhestrwch hwy. Gellir gweld y Rhestr bresennol ar wefan Treftadaeth y Byd UNESCO¹.

(12) Beth sy'n gwahaniaethu'r safle o safleoedd tebyg eraill? Bydd safleoedd sy'n cyflawni cofnod Treftadaeth y Byd wedi eu cymharu â safleoedd eraill sydd yn yr un categori mewn gwledydd eraill, a'u barnu fel yr enghraifft orau, neu o leiaf yn enghraifft flaenllaw, o'u math oherwydd y pwysigrwydd unigryw, neu'r GCE, sydd ganddynt. Nid oes angen dadansoddiad cymharol ar yr adeg hon ond er mwyn rhoi'r safle yn ei gyd-destun, dylech restru safleoedd tebyg eraill a dweud pam mae'r safle a gyflwynir yn wahanol i'r rhain.

(13) Sut mae'r safle yn cyfrannu at fodloni blaenoriaethau UNESCO am Restr Treftadaeth y Byd sy'n gytbwys, yn gynrychioliadol ac yn gredadwy? Mae gan rai mathau penodol o safle fwy o botensial i lenwi bylchau mewn cynrychiolaeth ar y Rhestr. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd naturiol, tirluniau diwylliannol a safleoedd o wledydd a dangynrychiolir. Byddai o gymorth nodi a yw'ch safle chi mewn unrhyw rai o'r categorïau a dangynrychiolir. I gael arweiniad pellach ar y mater cymhleth hwn cyfeiriwch at OG 55-60 ac <http://whc.unesco.org/en/globalstrategy/>.

(14) Pa fanteision yn eich barn chi fyddai dod yn sgîl cofnodi ar y Rhestr Treftadaeth y Byd? Gall rheoli safle i fodloni gofynion UNESCO arwain at well cadwraeth ac amddiffyniad. Er nad yw manteision statws Treftadaeth y Byd yn awtomatig, mae cyfle i gymunedau lleol a chenedlaethol gyfrannu at reoli safleoedd a thrwy'r broses hon gall amrediad o fanteision cymdeithasol ac economaidd ddilyn, a hynny i'r rhanddeiliaid a chymunedau lleol a chymunedau eraill. Ticiwch y blychau i ddangos pa rai o'r manteision rydych yn eu rhag-weld, gan nodi unrhyw rai eraill rydych yn disgwyl iddynt ddod yn sgîl dynodiad. Dylech nodi hefyd pwy fyddai'r prif fuddianwyr.

(15) A oes bygythiadau hysbys i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig?

Gallai datblygiad graddfa fawr, neu amrediad o faterion eraill fel erydu arfordirol, llifogydd neu effeithiau eraill newid yn yr hinsawdd newid cymeriad safle, a thanseilio ei werth. Gallai hyn olygu tynnu Safle Treftadaeth y Byd yn y pen draw o'r Rhestr Treftadaeth y Byd, fel a ddigwyddodd yn

¹ <http://whc.unesco.org/en/list>

ddiweddar i Dresden. Dylai ceiswyr ddarparu gwybodaeth mewn perthynas ag unrhyw fygythiadau hysbys neu effeithiau posibl. (OG 96)

(16) Amddiffyniad Cyfreithiol. Dylai ceiswyr ddatgan unrhyw amddiffyniadau cyfreithiol, neu ddynodiadau eraill ar gyfer y safle, fel a yw'r safle wedi ei restru, ei gofrestru neu yn dod o dan gyfarwydddebau Ewropeaidd ynghyd â deddfwriaeth gynllunio ac arweiniad cynllunio lleol. (OG 96-98)

(17) Perchnogaeth. Yn dibynnu ar natur safle, gall cefnogaeth perchnogion cyfreithiol fod yn hynod o bwysig. Mewn safleoedd cymhleth, fel canol dinas fel Caeredin, bydd llawer o berchnogion ac efallai na fydd yn bosib enwi hyd yn oed y prif rai. Lle bo'n bosibl, rhestrwch y prif berchnogion a dylai datganiadau oddi wrthynt gael eu hatodi i'r cais.

(18) Cefnogaeth yr Awdurdod Lleol dros y safle. Gall safleoedd groesi ffiniau Awdurdodau Lleol felly dylech enwi pob un sydd â chyrifoldeb dros y safle. Awdurdodau Lleol yw'r Awdurdod Cynllunio ac sydd yn y rheng flaen wrth reoli datblygiad ac isadeiledd, sydd ill dau yn gallu effeithio ar unrhyw Safle Treftadaeth y Byd. Mae'n annhebygol iawn y gall unrhyw safle fynd ymlaen i gael ei enwebu heb gefnogaeth yr Awdurdod/au Lleol perthnasol. Nodwch a oes gan y cynnig y gefnogaeth hon a darperwch ddatganiad oddi wrth bob Awdurdod Lleol perthnasol. Dwedwch hefyd a yw'r safle eisoes wedi ei gynnwys mewn unrhyw bolisiâu a chanllawiau cynllunio lleol.

(19) Rhanddeiliaid. Rhestrwch y prif gyrff neu unigolion neu gymunedau sy'n ymwneud â'r safle. Mae'n bwysig i UNESCO bod y rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn rheoli safleoedd a bod cefnogaeth leol i Safleoedd Treftadaeth y Byd er mwyn iddynt fod o fudd i'r gymuned, ar lefel leol ac yn ehangach.

(20) Sut caiff y safle ei reoli. Ceir nifer o fodelau gwahanol ar gyfer rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd ar draws y DU. Yn allweddol i bob un o'r rhain y mae'r Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd y mae ei angen ar Lywodraeth y DU ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd. Dylai ceisiadau ddisgrifio'n gryno trefniadau arfaethedig ar gyfer rheoli'r safle, gan gynnwys pwy fydd yn gyfrifol, a sut y caiff y manteision a enwir yng nghwestiwn 14 eu gwireddu. (OG 108-112)

(21) Cyllid ar gyfer enwebiadau. Mae'r broses o baratoi ar gyfer enwebiad Treftadaeth y Byd yn tueddu i lyncu amser a bod yn ddrud. Byddai'n ddefnyddiol cael awgrym o sut y câi'r enwebiad ei baratoi a hefyd sut y câi'r gwaith hwn ei gyllido.

(22) Cyllid ar gyfer rheoli'r safle. Rhwng awgrym hefyd o sut y caiff rheolaeth y safle yn y dyfodol ei chyllido.



Meini prawf UNESCO ar gyfer asesu Gwerth Cyffredinol Eithriadol **(para 77 o'r Canllawiau Gweithredol)**

- (i)** yn cynrychioli campwaith o athrylith creadigol dynol;

- (ii)** yn arddangos cyfnewid pwysig gwerthoedd dynol, dros gyfnod amser neu o fewn ardal ddiwylliannol o'r byd, ynghylch datblygiadau mewn pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau ar ffurf henebion, cynllunio tref neu ddylunio tirlun;

- (iii)** yn deyrnged unigryw neu o leiaf eithriadol i draddodiad diwylliannol neu i ddiwylliant sy'n byw neu sydd wedi diflannu;

- (iv)** yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, casgliad pensaernïol neu dechnolegol neu dirlun sy'n dangos cyfnod(au) arwyddocaol yn hanes dyn;

- (v)** yn enghraifft eithriadol o anheddiad, defnydd tir neu ddefnydd môr dynol traddodiadol sy'n cynrychioli diwylliant (neu ddiwylliannau), neu ryngweithio dyn â'r amgylchedd yn enwedig pan fydd wedi dod yn agored i niwed o dan effaith newid di-droi'n ôl;

- (vi)** yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n ddiriaethol â digwyddiadau neu draddodiadau byw, â syniadau, neu â chredoau, â gweithiau celfyddydol a llenyddol o arwyddocad cyffredinol eithriadol;

- (vii)** yn cynnwys ffenomena naturiol o'r radd flaenaf neu ardaloedd o harddwch naturiol a phwysigrwydd aesthetig eithriadol;

- (viii)** yn enghreifftiau eithriadol sy'n cynrychioli cyfnodau pwysig yn hanes y ddaear, gan gynnwys cofnod o fywyd, prosesau daearegol parhaus arwyddocaol yn natblygiad tiffurfuriau, neu nodweddion geomorffig neu ffisiograффig arwyddocaol;

- (ix)** yn enghreifftiau eithriadol sy'n cynrychioli prosesau ecolegol a biolegol parhaus arwyddocaol yn esblygiad a datblygiad ecosystemau daearol, dŵr croyw, arfordirol a morol a chymunedau o blanhigion ac anifeiliaid;

(x) yn cynnwys y cynefinoedd naturiol pwysicaf a mwyaf arwyddocaol at ddibenion cadwraeth *in-situ* amrywiaeth biolegol, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys rhywogaethau dan fygythiad sydd o werth cyffredinol eithriadol o safbwynt gwyddoniaeth neu gadwraeth.



department for
culture, media
and sport

2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk